# Rhannu ychydig o lawenydd y Nadolig

## Cefnogi Teuluoedd a Chymdogion!

### 🎨 Corneli Crefftau'r Ŵyl

- Trefnu llecyn galw heibio â phapur, pennau lliw, glud, a deunyddiau ailgylchu i'r plant gael gwneud cardiau ac addurniadau
- Arddangos yr eitemau yn y llyfrgell, neuadd y dref, neu mewn ffenestri siopau
- Creu "Cardiau Caredig" i'r plant eu hysgrifennu a'u rhoi i gymdogion a phreswylwyr oedrannus.

💡 Awgrym arall: Trefnu cystadleuaeth i greu'r addurn gwaith llaw gorau – a'u defnyddio i addurno'r goeden gymunedol

Darparu coeden gymunedol lle gall pobl osod addurniadau â negeseuon: i gofio anwyliaid neu i rannu eu gobeithion ar gyfer y flwyddyn newydd

### 🎶 "Llwybr Ffenestri â thema "12 Dydd y Nadolig"

- Gofyn i siopau, ysgolion neu deuluoedd lleol addurno ffenestri â phob pennill o'r gân
- Creu map o lwybr cerdded y gall teuluoedd ei ddilyn gyda'r nos yn ystod mis Rhagfyr

💡 Awgrym arall: Ei gysylltu â helfa drysor (chwilio am robin goch, cyfri'r sêr ac ati)

### 🎬 Sinema Dros Dro:

- Trefnu i sgrinio ffilmiau byr neu animeiddiadau clasurol yr ŵyl neu sesiynau dewch i ganu mewn neuadd neu lyfrgell
- Darparu popcorn a siocled poeth am ddim neu ar sail cyfraniad

💡 Awgrym arall: Cynnig sesiwn "gwylio ffilm yn eich pyjamas" i'r plant, gyda blancedi a chlustogau

Llwybr Lampau neu Oleuadau - addurno llwybr â goleuadau bach neu lampau cartref

### 🎁 Sesiwn Cyfnewid/ Ail-roi Anrhegion

- Gosod bwrdd ar gyfer teganau, llyfrau, addurniadau neu gemau ail-law
- System "Cymerwch beth sydd ei angen / gadewch beth y gallwch"
- Perffaith i deuluoedd pan fo'r esgid fach yn gwasgu

💡 Awgrym arall: Gofyn i ysgolion lleol, grwpiau sgowtiaid, Merched y Wawr/WI gasglu rhoddiont donations

### 🛍️ ""Ffair Nadolig Am Ddim"

- Canolbwyntio ar eitemau Nadoligaidd penodol: siwmperi, addurniadau, llestri, teganau
- Cyfle i breswylwyr gyfrannu eitemau tymhorol diangen ac i eraill eu cael am ddim
- Lleihau gwastraff ac arbed arian i deuluoedd

Gweithdy Siôn Corn
Gofyn i grefftwyr lleol gynnal stondin trwsio/gwneud teganau cyn y Nadolig

Un Llais Cymru
One Voice Wales

## 🎅 Agor Noddfa Nadoligaidd yn y Gymuned

- Defnyddio llyfrgell, neuadd neu swyddfa'r cyngor fel hwb galw heibio
- Cynnig te/coffi, mins peis, gemau bwrdd, crefftau a man gwefru am ddim
- Gosod addurniadau a goleuadau bach sy'n rhoddion
- Cynnal sesiynau "Ffilmiau Tymhorol" â ffilmiau addas i deuluoedd

💡Awgrym arall: Gofyn i fecws neu archfarchnad leol gyfrannu mins peis neu fisgedi

Rhoi eitem fach i bawb sy'n bresennol (e.e. cerdyn cartref, addurn gwau)

Cynnal Sesiwn Paned a Charolau ac Annog cyswllt rhwng y cenedlaethau

## 🥦 Cydgysylltu Casglu Bwyd dros ben adeg y Nadolig

- Cydweithio ag archfarchnadoedd o ran bwyd dros ben adeg y Nadolig
- Ailddosbarthu trwy hwb canolog neu fan croeso cynnes
- Rhannu'r amseroedd trwy grwpiau Facebook / WhatsApp

💡Awgrym arall: Trefnu "Rhybudd Bwyd ar Noswyl Nadolig" ar gyfer eitemau munud olaf

### 🍪 Cynnal Sesiwn Pobi a Rhannu yn y Gymuned

Pobi danteithion Nadoligaidd ar gyfer y gymuned gan ddilyn ryseitiau addas i bobl ag alergeddau

## 🧸 Creu Pecynnau Tymhorol i Deuluoedd

- Cynnwys pecynnau bach o siocled poeth, bisgedi, pecynnau crefftau, taflenni lliwio a thaflen am gymorth lleol
- Eu dosbarthu trwy'r ysgolion, y banciau bwyd neu fannau croeso cynnes

## 🎯 Rhagor o syniadau

- Cyfnewid anrhegion Santa Cudd – cyfnewid eitemau cost isel neu waith llaw yn yr hwb cymunedol
- Karaoke Cymunedol y Nadolig – noson o hwyl i'r teulu cyfan
- Stondin Gwirfoddolwyr sy'n Lapio Anrhegion– Helpu rhieni a all fod o dan bwysau neu'n brin o amser.
- ·Bwth Tynnu Lluniau Teuluol am ddim – Un â chefndir Nadoligaidd lle gall teuluoedd gael llun i'w drysori.

## Cychwyn Arni

✅ Dewis 1 prosiect i'w dreialu ym mis Tachwedd/ar ddechrau mis Rhagfyr

🤝 Nodi 2 bartner lleol (e.e. archfarchnad, ysgol, elusen)

📣Defnyddio Facebook, WhatsApp, hysbysfyrddau i'w hyrwyddo'n gyflym

✍️ Trefnu bod un cynghorydd neu wirfoddolwr yn arwain pob prosiect bach

**Mae pob cyngor cymuned yng Nghymru yn gorfod cael grymoedd cyfreithiol penodol sy'n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth amrywiol i'w cymunedau lleol. Er mwyn cael cyngor ac arweiniad, efallai yr hoffai cynghorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru:**

Un Llais Cymru

CoLC@onevoicewales.wales

https://bit.ly/3KYHftK